


# Adroddiad Costau Byw

Dechrau Mehefin 2024

# Argyfwng sy'n gwaethygu:

## nid yw'r argyfwng costau byw ar ben i denantiaid cymdeithasol yng Nghymru

# Tid yw'r argyfwng costau byw ar ben i denantiaid cymdeithasol yng Nghymru

Mae ein **system les ganolog yn methu** ac mae pobl fregus, gan gynnwys tenantiaid tai cymdeithasol, yn **syrthio trwy'r bylchau** yn ei rhwyd ddiogelwch annigonol.

Ar draws y Deyrnas Gyfunol, mae'r amser caled i deuluoedd ac unigolion yn parhau wrth i'r argyfwng costau ddal i fynd. Mae bron i 5 miliwn o bobl â **chyllideb negyddol**, gan gynnwys 1 o bob 4 o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.[1] Mae cyllideb negyddol yn golygu bod gwariant wythnosol rhywun yn mynd â'u harian i gyd a bod yn rhaid benthyca arian i allu fforddio'r pethau sylfaenol.

Yng Nghymru mae pobl yn dal i orfod ymdopi ag effaith costau uchel, incwm isel a blynyddoedd o gael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau yng Nghymru bum gwaith yn fwy tebygol o gofnodi eu bod, weithiau, neu yn aml, neu bob amser **yn cael trafferth i fforddio'r pethau sylfaenol** na'r boblogaeth yn gyffredinol.[2]

Mae tenantiaid **tai cymdeithasol** ymhlith y rhai y mae'r heriau parhaus yma yn **effeithio mwyaf arnyn nhw**. Gan fod llawer ar incwm isel, mae rhan fawr o'u harian eisoes yn mynd tuag at gostau rhedeg eu cartrefi. Dengys data ONS bod aelwydydd ar incwm isel yn profi cyfradd chwyddiant uwch na'r cyfartaledd[3]. Dengys ein hymchwil bod mwy o denantiaid yn troi at eu cymdeithasau tai i gael help a ffordd o osgoi eu caledi ariannol parhaus.

Cymdeithasau tai yn aml yw'r cam olaf i denantiaid mewn trafferthion ac maent wedi bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i **gynorthwyo** a chefnogi pobl, llawer ohonynt eisoes yn hawlio popeth sy'n ddyledus iddynt yn barod.

> "Yn aml iawn mae swyddogion tai a thenantiaid wedi bod yn meddwl sut y gall hyn fod yn ddigon i oroesi arno o gwbl."

[1] The National Red Index: how to turn the tide on falling living standards – Citizens Advice
[2] A snapshot of poverty in winter 2023 – Bevan Foundation
[3] Provisional CPIH and CPI-consistent inflation rate estimates for UK household groups: January to September 2023 – Office for National Statistics

→

→ Mae arnom angen **gweithredu ac ymyrraeth ar frys** gan Lywodraeth nesaf y Deyrnas Gyfunol i sicrhau bod y system les yn cynnig rhwyd ddiogelwch gadarn i'r rhai sydd â chymaint o'i hangen.


**Canfyddiadau ymchwil**

## Nid yw'r galw am gymorth ariannol yn arafu ac mae'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl o brofi caledi ariannol yn derbyn budd-daliadau

Mae'r nifer o denantiaid sy'n gofyn am gymorth i gymdeithasau tai yn cynyddu'n gyson. Rhwng Ionawr a Mawrth 2024, derbyniodd **7,401** o denantiaid gymorth gan gymdeithasau tai, mae hyn yn **gynnydd o 110 o denantiaid** ers yr un cyfnod y llynedd.

Ers Ionawr 2023 mae cymdeithasau tai wedi rhoi cymorth i dros **35,000 o denantiaid**, sydd yn **21%** o'r tenantiaid y maen nhw'n darparu cartrefi iddynt.

**Graff 1: Graff bar yn dangos y nifer o denantiaid a dderbyniodd gymorth ariannol ym mhob chwarter**



Mae costau pethau sylfaenol hanfodol yn parhau yn uchel er bod y gyfradd chwyddiant flynyddol wedi dod i lawr i 2.3% ar gyfer Ebrill 2024 ar ôl cyrraedd 11.1% yn Hydref 2022, oedd y **gyfradd uchaf ers 41 mlynedd**.[4] Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae **costau bwyd wedi codi o 22.5%**, mae hyn yn gynnydd o'r un maint â'r deuddeng mlynedd cyn hynny[5].

Rhwng 2022 a 2025 dim ond o £2,000 (10.1%) y mae'r cap budd-daliadau, yr uchafswm y gall cyplau neu deuluoedd ei dderbyn, wedi codi.

| **Blwyddyn** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|
| Cap budd-daliadau blynyddol (tu allan i Lundain)<br>Cyplau gyda neu heb blant | 20,000 | 22,020 | 22,020 |

Amlygodd yr argyfwng costau byw pa mor annigonol yw Credyd Cynhwysol wrth gefnogi pobl i dalu am bethau sylfaenol hanfodol. Dangosodd ein hymchwil mai'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth ariannol yw aelwydydd sydd:

- yn derbyn Credyd Cynhwysol;
- ag un neu fwy o unigolion ag anabledd tymor hir neu;
- ag incwm ansefydlog.

> "Mae cwsmeriaid o oedran gwaith sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ag incwm ansefydlog yn parhau i dra-arglwyddiaethu ar y cyfeiriadau y mae ein Tîm Materion Ariannol yn eu derbyn. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r ffaith nad ydynt wedi derbyn yr un lefel o gymorth costau byw â'r rhai sydd ar aelwydydd oedran pensiwn."

Wrth adrodd profiad, dywedodd ein haelodau o gymdeithasau tai eu bod yn gweld cynnydd yn y nifer o asesiadau Taliadau Annibyniaeth Personol ac asesiadau gallu i weithio. Gall y rhain yn aml beri gofid i denantiaid a bydd nifer o gymdeithasau tai yn darparu cymorth dwys i denantiaid trwy eu hawliad am fudd-dâl.

4 Rising cost of living in the UK – House of Commons Library (parliament.uk)
5 Rising cost of living in the UK – House of Commons Library (parliament.uk)

→

→

> "Rydym yn rhoi cymorth i lawer o denantiaid sydd â salwch/anabledd tymor hir ac rydym wedi gweld cynnydd yn y cyfeiriadau am help gyda ffurflenni budd-daliadau – ffurflenni Taliad Annibyniaeth Personol yn neilltuol, gan fod yr hawlwyr yn cael eu hadolygu yn aml ac angen cymorth gyda hyn."

Mae gennym bryder cynyddol am effaith y mudo i raglen Credyd Cynhwysol ar denantiaid sydd eisoes yn profi caledi sylweddol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw wrth iddo waethygu. Rhai o'r problemau sy'n achosi mwyaf o bryder i'n haelodau yw y ffaith bod y diogeliad wrth drosglwyddo yn erydu, mudo grwpiau bregus o denantiaid fel hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chymorth Incwm, a'r angen parhaus am ddarpariaeth leol a budd-daliadau o Gymru i gau'r bwlch yn y system fudd-daliadau ganolog. **Bydd y themâu hyn yn cael eu trafod ymhellach a'u harchwilio yn ein hadroddiad costau byw nesaf.**

Mae cymdeithasau tai mewn sefyllfa dda i helpu awdurdodau lleol a'r DWP gyda'r broses o fudo ac rydym yn annog y llywodraeth newydd i roi blaenoriaeth i greu gwell prosesau rhannu data i bartneriaid yr ymddiriedir ynddynt i helpu i sicrhau na fydd unrhyw un yn syrthio trwy'r rhwydi diogelwch wrth i'r mudo hwnnw barhau.

Ar ben hyn, mae ein data yn dangos **nad oes unrhyw un yn ddiogel** rhag y cynnydd mewn costau ac mae pobl sydd yn gweithio hefyd yn cael trafferth i gael dau pen llinyn ynghyd. Mae 29% o gymdeithasau tai yn gweld cynnydd yn y cyfeiriadau am gymorth ariannol gan aelwydydd gydag un neu fwy o bobl mewn gwaith. Ar draws y Deyrnas Gyfunol, mae 8.1m o oedolion o oedran gwaith yn byw mewn tlodi.[6]

> "Mae hyn yn gyffredinol. Ond y math anoddaf o aelwyd i'w chefnogi yw'r rhai sydd mewn gwaith, gan mai ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i'r demograffig hwn."

## Mae Cymdeithasau tai yn gwneud popeth o fewn eu gallu, ond maent yn cyrraedd pen draw yr hyn y gallant ei wneud i helpu

Fe wnaeth 17 o gymdeithasau tai uchafu incwm tenantiaid o **dros £17.4** rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024. Mae hyn mewn cymhariaeth â **dros £9m** ar draws 14 o gymdeithasau tai rhwng Ionawr a Mehefin 2023. Dengys hyn bod cymdeithasau tai mewn sefyllfa dda i ddarparu'r math

[6] UK Poverty 2024: The essential guide to understanding poverty in the UK | Joseph Rowntree Foundation (jrf.org.uk)

hwn o gymorth ariannol ac maent yn cyflawni deilliannau sy'n newid bywydau pobl (fel y dangosir gan astudiaeth achos un yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn). Er gwaethaf hyn, mae staff cymdeithasau tai yn dweud ei bod yn anos nag erioed i uchafu incwm pobl.

> "Rwy'n cael fy hun yn gynyddol yn dweud nad oes mwy o arian – ac ymateb pobl yn **sut ydw i fod i oroesi ar hynny.**"

Oherwydd bod y system lles cymdeithasol yn annigonol, mae llawer o gymdeithasau tai wedi creu cronfeydd caledi. Cronfeydd yw'r rhain sydd wedi eu dynodi y gall swyddogion tai eu defnyddio yn ôl eu disgresiwn i helpu tenantiaid mewn angen.

O flwyddyn i flwyddyn mae mwy o gymdeithasau tai yn creu cronfeydd caledi. Ar gyfer 2024/25 mae **95% o gymdeithasau tai** (20 o'r 21 a ymatebodd) yn cynnig achubiaeth i denantiaid mewn argyfwng ariannol ar ffurf cronfa galedi.

| Year | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| **Canran o gymdeithasau tai a holwyd gyda chronfa galedi** | 69% | 81% | 86% | 95% |
| **Swm y gronfa sydd ar gael (£)** | 402,292 | 424,389 | 1.3m | 1.6m |

*DS: Roedd nifer y cymdeithasau tai a wnaeth ymateb yn amrywio bob blwyddyn o rhwng 16 a 24, ac felly mae'r % yn seiliedig ar gyfanswm yr ymatebwyr nid cyfanswm y nifer o gymdeithasau tai yng Nghymru.*


Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn darparu mynediad at **dros £1.6m** mewn cronfeydd caledi.

Y llynedd (2023/24), defnyddiodd cymdeithasau tai dros £1.3m o'u cronfeydd caledi i helpu tenantiaid mewn angen dybryd a phan oedd pob llwybr arall at gymorth wedi methu. Bu'n rhaid i rai cymdeithasau ddyrannu adnoddau ychwanegol at y gronfa ar ôl i'r gronfa gychwynnol fynd yn wag.

Defnyddiodd **mwy na 5,000 o denantiaid** y gefnogaeth hanfodol hon rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024 ac mae'r nifer sy'n cael eu cyfeirio'n cynyddu.


→

→ **Graff 2: Y nifer o denantiaid a ddefnyddiodd y gronfa galedi yn 2023/24**




O Ionawr 2023 hyd Fawrth 2024, dywedodd cymdeithasau tai wrthym ni mai un o'r rhesymau mwyaf cyffredin eu bod yn defnyddio eu cronfeydd caledi yw i helpu aelwydydd nad ydynt yn gallu fforddio bwyta.

**Siart 1: Siart pei yn dangos y prif resymau y mae cymdeithasau tai yn defnyddio eu cronfa galedi**



I fwyafrif tenantiaid tai cymdeithasol, mae eu costau tai yn cael eu talu gan Gredyd Cynhwysol. Byddant yn derbyn taliad tai bob mis gan y Credyd Cynhwysol y bydd angen iddynt ei dalu i'w landlord. Oherwydd y straen ariannol gynyddol sydd ar aelwydydd mae tenantiaid yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng bwyta, gwresogi eu cartref a thalu'r rhent. I rai tenantiaid yn yr amgylchiadau anoddaf, mae eu taliad tai yn hytrach yn cael ei ddefnyddio i dalu am eu hanghenion hanfodol wrth iddynt ymdrechu i dalu am gostau cynyddol bwyd ac ynni.

Nid yw'r duedd hon a'r ddibyniaeth gynyddol ar gronfeydd caledi tai **yn gynaliadwy**. Mae arnom angen newidiadau brys a sylfaenol i'r system fudd-daliadau i sicrhau bod gan bobl ddigon o arian i fforddio'r pethau sylfaenol.

## Mae'r system fudd-daliadau bresennol yn methu diogelu'r rhai sy'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd

**Dywedodd mwy na 50%** o gymdeithasau tai wrthym eu bod wedi gweld cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau am gymorth ariannol gan y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae'r system les yn gwthio pobl **tuag at argyfwng**. Mae cymdeithasau tai yn ymateb trwy roi talebau banciau bwyd a rhoi cymorth tuag at ynni.

Rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024, fe wnaeth cymdeithasau:

- roi 2,685 o dalebau banciau bwyd i denantiaid. Mae'r Trussell Trust yn amlygu mai system les annigonol yw'r prif yrrwr o ran yr angen am fanciau bwyd a defnyddiodd dros 1.5m o bobl fanc bwyd yn 2023.[7]
- darparu cyngor ynni i 2045 o denantiaid oedd yn cael trafferth i fforddio gwresogi eu cartrefi. Amcangyfrifodd National Energy Action bod y nifer o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 6.5m.[8]

Ochr yn ochr â'r ymyraethau argyfwng hyn, mae cymdeithasau tai yn sefydlu prosiectau tymor hir i gynyddu gwytnwch ariannol tenantiaid, gan gynnwys gweithdai coginio, gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi, a chefnogi tenantiaid i gyflawni eu nodau o ran cyflogaeth.

Rydym yn gwybod bod cefnogaeth mewn argyfwng yn bwysig a bydd yn parhau yn rhan hanfodol o'n system les nes bydd diwygiadau sylfaenol. Ar hyn o bryd mae gennym fudd-daliadau penodol i Gymru y dylid eu cadw i helpu pobl mewn caledi difrifol ac anhawster ariannol. Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'r Taliadau Tai Dewisol (DHP).

7 Guarantee our Essentials: reforming Universal Credit to ensure we can all afford the essentials in hard times | Joseph Rowntree Foundation (jrf.org.uk)
8 Fuel poverty in the UK – House of Commons Library (parliament.uk)

→ Rydym yn gwybod bod y cronfeydd hyn, yn rhy aml, yn cael eu defnyddio yn y tymor hir i dalu am y diffyg rhwng rhent gwirioneddol a'r budd-dal tai oherwydd y cymhorthdal ystafelloedd sbâr. Dywedodd 71% o gymdeithasau tai wrthym mai'r prif reswm eu bod wedi gwneud cais am Daliadau Tai Dewisol oedd ar gyfer y costau hyn.

Ar hyn o bryd rydym yn gwneud ymchwil mwy manwl i'r DAF a'r DHP, yn ogystal ag adolygiad ehangach gyda'n haelodau ar fudd-daliadau Cymru a dylem allu rhannu ein canfyddiadau llawn tuag at ddiwedd yr haf yn ein hadroddiad costau byw nesaf.

## Argymhellion

Ni all y sefyllfa sydd gennym ar hyn o bryd barhau ac mae arnom angen adolygiad brys gan lywodraeth nesaf y Deyrnas Gyfunol i ddeall sut y gallwn weithio ar y cyd i greu cymdeithas lle gall pawb fforddio byw'n dda yn ei gartref.

Mae arnom angen dull mwy rhesymegol rhwng polisi San Steffan a Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pobl yn syrthio i'r bylchau. **Mae hyn yn golygu:**

- **Dull holistig o roi cymorth lles sy'n atal digartrefedd ac yn cefnogi mynediad i'r farchnad tai ar rent.** Mae angen adolygiad o'r lwfans tai lleol i sicrhau bod cyfraddau a pholisïau yn cefnogi mynediad at lety yn y sector rhentu preifat i aelwydydd ar incwm isel. Rydym yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i ddod â'r rhewi ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol i ben yn barhaol fel eu bod yn parhau o leiaf ar 30fed bwynt canran rhenti lleol.

- **Diwygio Credyd Cynhwysol i sicrhau bod yr hawlwyr yn gallu talu am yr hanfodion sylfaenol o leiaf.** Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn gefnogwr a enwir i'r ymgyrch Gwarant Hanfodion a lansiwyd gan y Trussell Trust a Sefydliad Joseph Rowntree.

- **Gwelliannau i'r system Credyd Cynhwysol i hawlwyr a chymdeithasau tai.** Byddai adolygu'r cyfnod aros pum wythnos, didyniadau tecach, a chael gwared â chosbau fel y cyfyngiad dau blentyn a'r cymhorthdal ystafell sbâr yn atal mwy o aelwydydd rhag syrthio i gyllidebau negyddol, ac yn gadael i hawlwyr ddefnyddio eu hawliau yn llawn. Galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd, ynghyd â'i chwaer ffederasiynau, am well trefniadau rhannu data rhwng y DWP a rhanddeiliaid allweddol fel y gall cymorth gael ei dargedu at denantiaid bregus yn fwy effeithiol a sicrhau na fydd unrhyw un yn syrthio trwy'r rhwyd ddiogelwch wrth i'r mudo i'r rhaglen gredyd gynhwysol barhau.

- **System ynni sy'n diogelu aelwydydd incwm isel,** gan alluogi pobl i fforddio gwresogi eu cartrefi yn gyson. Rydym wedi ymgyrchu gyda phartneriaid gan alw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gyflwyno **tariff ynni cymdeithasol**. Er bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi ymrwymo i ymgynghori ar y mater hwn yn Natganiad Hydref 2022, rydym yn dal i aros am gynnydd ar hyn. Mae ar denantiaid tai cymdeithasol hefyd angen mwy o gymorth wrth ad-dalu dyled ynni. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r cynnig Help i Ad-dalu dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol a chlymblaid o elusennau gan gynnwys National Energy Action (NEA) Cymru, sy'n galw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gyflwyno cynllun dros dro ar gyfer pobl sy'n cael trafferth â dyled ynni.

- **Ymrwymiad gan y llywodraeth i gefnogi'r sector i gyflawni ei nodau sero net,** gan gynnwys gwella datblygu sgiliau gwyrdd a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflymu'r buddsoddiad mewn prosiectau datgarboneiddio.

## Nodyn gan y Golygydd

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn cyfres o ymchwil gan y sector yn cynnwys: 'Methu Dod â Dau Ben Llinyn Ynghyd', 'Amser i Weithredu' a 'Llawer i'w golli'.

Mae'r adroddiad dadansoddiad cynnar hwn wedi ei baratoi cyn yr etholiad cyffredinol, bydd adroddiad llawnach yn cael ei gyhoeddi tua diwedd yr haf a fydd yn ehangu ar rai o'r themâu a grybwyllir – er enghraifft: hygyrchedd budd-daliadau Cymru ar draws awdurdodau lleol a phroblemau penodol a godwyd am Gredyd Cynhwysol.

→

→

## ASTUDIAETH ACHOS UN:
## Mrs P yn derbyn £25,000 o incwm ychwanegol, Trivalis

Cychwynnodd y cyfan pan oedd Mrs P yn sgwrsio gyda'i rheolwr cyfrif rhent, a sylweddolodd ei bod yn nesu at ei hoedran pensiwn gwladol. Fe wnaethant sylweddoli nad oedd Mrs P wedi derbyn y cod angenrheidiol i ddechrau ar ei chais am bensiwn. Cyfeiriodd y rheolwr hi at Sue Hoskins, swyddog cyngor ariannol yn Trivallis, a wnaeth gamu i'r adwy.

Dywedodd Sue, "Fe ddechreuais roi cymorth i Mrs P gyda'i chais am bensiwn, gan gael y cod angenrheidiol a'i chynorthwyo gyda'r cais. Fe wnes ei gwahodd i un o'n sesiynau galw heibio i gael cyngor ariannol i roi rhagor o help iddi."

Meddai Mrs P, "Roedd gennyf gymaint o lythyrau, ac nid oeddwn am ofyn am help oherwydd roeddwn yn teimlo'n wirion. Roeddwn yn cael trafferth i ddeall beth oedden nhw'n ei olygu. Esboniodd Sue bopeth heb wneud i mi deimlo'n ddwl."

Ar ôl i'r cais pensiwn gael ei gwblhau, cynhaliodd Sue wiriad budd-daliadau i archwilio cymorth ychwanegol i Mrs P.

Esboniodd Sue, "Fe wnaethom ganfod bod gan Mrs P hawl i gefnogaeth ariannol arall, gan gynnwys credyd pensiwn gwladol, budd-dâl tai, gostyngiad yn y dreth gyngor, a chymorth

gyda'i bil dŵr trwy'r tariff Help U. Fe wnaethom ddynodi bod cyfanswm o £25,537.75 rhyfeddol o incwm ychwanegol a chynilion i Mrs P yn flynyddol!"

Yn ddiolchgar am y cymorth, dywedodd Mrs P, "Rwy'n ddiolchgar i Sue am wneud gwahaniaeth i'm bywyd, yn ariannol a meddyliol. Fe wnaeth hi ateb pob cwestiwn oedd gennyf. I bobl fel fi sy'n teimlo ein bod wedi ein gadael ar ôl, mae help ar gael ar ben arall y ffôn. Peidiwch â bod ofn; gofynnwch am help."

Ychwanegodd Sue, "Mae'n rhoi boddhad gweld y gwahaniaeth a wnes i. Rwy'n cadw cysylltiad â Mrs P, gan roi cymorth parhaus. Fe wnaeth hi hyd yn oed ymweld â'r swyddfa gyda cherdyn a siocledi i ddweud diolch."

Nododd Sue, "Mae achos Mrs P yn unigryw, ac ni allwn addo symiau mor sylweddol i bawb. Ond, mae popeth yn helpu, felly rwy'n annog pawb i ddefnyddio'r help sydd ar gael. Nid oes gennych ddim i'w golli ond llawer i'w ennill, yn ariannol ac emosiynol."

https://trivallis.co.uk/tenant-stories/mrs-p-boosts-income-with-help-from-trivallis-money-advice-team/

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

chcymru.org.uk | enquires@chcymru.org.uk

Cofrestrwd dan y Ddeddf Cwmniau 1985
Rhif Cofrestru: 2380564
Rhif Cofrestru Elusen: 1128527